# Adroddiad Arolygu

**Meithrin Ysgol Hen Heol / Old Road School Nursery**

**Ysgol Hen Heol**
**Hen Heol**
**Llanelli**
**SA15 3HW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

14/07/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Meithrin Ysgol Hen Heol / Old Road School Nursery

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd sesiynol |
| Person cofrestredig | Elizabeth Non Neave |
| Lleoedd cofrestredig | 22 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 25<br>Chwefror 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

### Crynodeb

Mae'r plant yn cyfathrebu yn hyderus iawn. Maent wrth eu bodd yn mynegi eu mwynhad yn yr hyn a wnânt. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau o amser cynaledig ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gallu cynnal sgyrsiau estynedig. Mae'r plant yn datblygu cydberthnasau cryf gyda'i gilydd a'r staff gofal. Mae'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth da.

Mae'r staff yn deall ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, diogelwch, a llesiant personol. Maent yn annog y plant i fynegi eu hunain yn dda ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd y plant ac iddynt ddilyn eu diddordebau.

Mae'r amgylchedd yn addas, ac mae pob ardal wedi'i chynnal yn dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ystod eang o adnoddau i gymell pob cam o ddatblygiad er mwyn meithrin sgiliau datblygiadol y plentyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r rheoliadau. Fodd bynnag, mae angen iddynt sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â rhai achosion o ddiffyg cydymffurfio mewn perthynas ag arfarniadau blynyddol, gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a'r adroddiad ansawdd gofal. Mae'r bartneriaeth rhwng y rhieni a staff yr ysgol yn dda ac maent yn sicrhau prosesau pontio da.

| **Llesiant** | **Da** |
| --- | --- |

Mae’r plant yn hapus ac yn sefydlog yn y lleoliad. Maent wedi ffurfio ymlyniad emosiynol cadarnhaol gyda'r staff a'r plant eraill, sy'n gwneud iddynt deimlo'n ddiogel yn y lleoliad. Maent yn mwynhau canu mewn grŵp ac yn annibynnol yn ystod y sesiynau. Er enghraifft, mae'r plant yn dechrau canu am yr wyddor wrth iddynt adnabod llythrennau ar yr îsl. Maent yn gyfarwydd iawn â'r gosodiad a'r trefniadau arferol.

Mae gan y plant lais cryf iawn. Maent yn hyderus y bydd eu lleisiau'n cael eu clywed, a chânt gyfleoedd amrywiol i wneud dewisiadau. Er enghraifft, gallant ddewis pa lenwadau y maent am i'r staff eu prynu ar gyfer eu brechdanau i'r parti ar ddiwedd y tymor a pha addurniadau i'w roi ar ben eu cacennau, ac yn ystod y parti mae'r plant yn gallu dewis unrhyw gyfuniad o lenwadau, a hefyd yn gallu dewis eu hoff liwiau o addurniadau ar gyfer eu cacennau.

Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i ddilyn eu greddf, eu syniadau a’u diddordebau eu hunain a gwneud dewisiadau da o fewn eu gweithgareddau. Mae rhai yn dewis chwarae yn y gornel gartref ac yn defnyddio adnoddau fel hwfer, lliain sychu llestri ac ardal sinc i helpu i dacluso. Wrth chwarae yn y gornel gartref, mae rhai plant yn mwynhau cyfrif hyd at 12 o greision plastig wrth iddynt eu gosod ar blât ac mae eraill yn mwynhau bod yn driniwr gwallt i'r staff. Mae rhai plant yn dewis chwarae ar sgwteri a threiciau yn yr awyr agored ac mae eu rheolaeth echddygol bras yn datblygu'n dda iawn. Maent yn dechrau deall eu sgiliau mewn perthynas â risg, a gall rhai rheoli eu risg eu hunain yn fedrus pan fyddant ar sgwteri a threiciau.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda gyda'i gilydd a gyda'r staff. Maent yn llawn brwdfrydedd a chymhelliant ac yn cydweithio'n dda wrth ymgymryd â thasgau megis coginio, paratoi ar gyfer parti a chwarae gyda'i gilydd yn yr awyr agored. Mae'r plant yn gofalu am ei gilydd. Er enghraifft, mae ffrindiau yn dangos tosturi ac yn trosglwyddo eitemau i'w gilydd yn garedig yn ystod parti diwedd tymor. Yn ystod eu hamser yn yr awyr agored, mae'r plant yn cydweithio'n dda i lenwi blychau bach. Cydweithiant yn dda wrth arllwys dŵr ar gerrig i'w hamddiffyn ar ddiwrnod heulog, gan ddychmygu eu bod yn defnyddio eli haul, ac yn canolbwyntio ar eu tasg am amser cynaledig.

Mae'r plant yn hynod o annibynnol. Dewisant liw eu cwpanau a'u platiau, tywalltant eu llaeth eu hunain, a golchi eu llestri eu hunain mewn powlen gan ddefnyddio brwshys. Maent hefyd yn rhoi menyn ar eu bara eu hunain ac yn llenwi eu brechdanau gyda llenwad o'u dewis. Mae bron bob un o'r plant yn symud yn hyderus ac yn annibynnol o un ardal i’r llall, gan ddewis teganau a chyfarpar priodol. Mae bron pob un o’r plant yn gwybod sut i gadw’n iach. Er enghraifft, maent yn ymolchi eu dwylo'n drylwyr ac yn annibynnol ar ôl coginio neu chwarae yn yr awyr agored, ar ôl defnyddio'r toiled, a chyn bwyta bwyd. Maent hefyd yn trafod pa fwydydd sy'n iach iddynt.

| Gofal a Datblygiad | Da |
|---|---|

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant ac mae'r staff y siaradwyd â nhw yn hyderus i adnabod arwyddion a symptomau cam-drin ac yn gwybod y broses ar gyfer adrodd am unrhyw bryderon. Mae gan yr holl staff hyfforddiant cymorth cyntaf cyfoes a dealltwriaeth dda. Mae'r staff yn hyrwyddo iechyd a llesiant y plant yn effeithiol. Maent yn cynnig byrbrydau a diodydd iach a maethlon, sy'n cynnwys ffrwythau ffres, llaeth a dŵr. Mae gweithdrefnau ac arferion hylendid yn effeithiol ac mae'r staff yn annog y plant i ymolchi eu dwylo'n annibynnol ar yr adegau priodol.

Mae'r staff yn gweithredu'r polisi rheoli ymddygiad yn dda ac yn canolbwyntio ar strategaethau rheoli cadarnhaol. Defnyddiant lawer o iaith gadarnhaol a chanmoliaeth, sy'n gwella llesiant y plant. Maent yn fodelau rôl da ac yn sicrhau bod ganddynt ffiniau clir ar waith. Mae'r staff yn cynnig esboniadau syml a chlir i helpu cyfeirio'r plant tuag at ymddygiad cadarnhaol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o ddatblygiad plant, a'i effaith ar ymddygiad plant.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n dda gyda'r plant. Maent yn datblygu meddyliau'r plant yn llwyddiannus trwy gwestiynau sensitif. Er enghraifft, wrth drafod llenwadau brechdanau, mae'r staff yn cefnogi'r plant i drafod gwahanol fathau o lenwadau, ac o ganlyniad maent yn ysgogi'r plant i drafod eu hoff lenwadau, hoff lenwadau aelodau o'u teuluoedd, a hoff lenwad cymeriad enwog. Maent hefyd yn annog y plant i ymhelaethu ar eu hatebion.

Mae'r staff yn darparu gofal a chymorth da i'r plant sy'n mynychu. Maent yn cydweithio'n dda, sy'n creu ethos cadarnhaol, gan arwain at ganlyniadau buddiol i'r plant. Maent yn gofalu am y plant mewn ffordd garedig ac amyneddgar. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u hanghenion a'u hoffterau. Maent yn casglu gwybodaeth fanwl am arferion unigol y plant oddi wrth y rhieni pan fyddant yn dechrau yn y feithrinfa, er enghraifft, trwy ddefnyddio'r llyfryn 'gwybodaeth bwysig amdanaf i'.

Mae'r staff yn cynllunio ystod ddifyr ac ysgogol o weithgareddau dysgu annibynnol sydd â ffocws ac yn dilyn diddordebau'r plant. Mae'r staff yn chwarae ochr yn ochr â'r plant ac yn darparu cyfleoedd da i sicrhau bod sgiliau rhifedd, llythrennedd, datrys problemau, ac echddygol manwl a bras y plant yn datblygu wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, maent yn darparu cyllyll i blant wasgaru eisin yn annibynnol ar gacennau ac i roi menyn ar fara. Mae'r staff yn cynnwys y plant yn effeithiol wrth gyfrannu syniadau ar gyfer themâu, ac yn addasu eu cynllunio ar fyr rybudd i gynnwys syniadau a chwilfrydedd y plant. Maent hefyd yn rhoi cyfleoedd i'r plant hunanfyfyrio ar ddiwedd y sesiwn.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae’r amgylchedd yn ddiogel a saff, ac yn darparu digon o le i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd yn cael eu cynnal. Mae asesiadau risg sylfaenol ar waith ar gyfer pob rhan o'r lleoliad, ac mae'r staff yn cynnal gwiriadau diogelwch yn ddyddiol i nodi a dileu peryglon posibl i ddiogelwch y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn mwynhau eu hamser mewn amgylchedd cynnes a chroesawgar, sy'n olau, yn awyrog ac yn lân. Mae arferion glanhau yn adlewyrchu arferion hylendid da a gwaith effeithiol o ran rheoli heintiau. Er enghraifft, mae'r byrddau'n cael eu glanhau a'u diheintio cyn amser byrbryd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ganddynt drefniadau da ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r adeilad, ac yn cadw cofnod cyfredol. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau diogelwch effeithiol pan fydd y plant yn dod i mewn ac yn gadael y safle. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cofnodi presenoldeb y plant a'r staff sy'n gofalu amdanynt. Er gwaethaf y niferoedd isel sy'n mynychu ar hyn o bryd, mae'r staff yn parhau i ddilyn eu hasesiad risg ac yn cyfrif y plant ar ôl dychwelyd o'r ardal awyr agored. Gwnânt hyn trwy gynnwys y plant mewn gweithgaredd cyfrif hwyliog.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd ysgogol sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r holl ardaloedd wedi'u haddurno mewn ffordd sy'n addas i blant ac sydd yn creu awyrgylch ymlaciol a thawel. Gall y plant gyrchu teganau ac adnoddau yn hawdd, sy'n cefnogi eu hannibyniaeth. Mae sawl ardal yn darparu cyfleoedd difyr i'r plant i ddatblygu eu meddyliau a’u creadigrwydd, gan gynnwys y gornel gartref ac îsl peintio. Mae'r ardal tu allan yn galluogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau trwy ddefnyddio adnoddau mwy fel y treiciau a'r sgwteri.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth glir. Mae'r datganiad o ddiben wedi'i adolygu i sicrhau ei fod yn adlewyrchu darlun cywir o'r hyn sydd gan y lleoliad i'w gynnig, gan alluogi rhieni i wneud penderfyniad gwybodus am y gofal y mae eu plentyn yn ei dderbyn. Mae polisïau a gweithdrefnau gofynnol ar waith ac mae'r staff yn eu dilyn yn briodol, sy'n helpu’r lleoliad i redeg yn esmwyth. Fodd bynnag, mae angen adolygu'r polisi amddiffyn plant i sicrhau ei fod yn gyfredol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal gwiriadau addasrwydd trylwyr ar y rhan fwyaf o'r staff. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd. Mae'r person cofrestredig bellach wedi sicrhau bod holl wiriadau perthnasol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u hadnewyddu mewn modd amserol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r cymarebau gofynnol i sicrhau bod y plant yn cael gofal da. Fodd bynnag, er bod y gwasanaeth bob amser yn gweithredu yn unol â’r cymarebau gofynnol, bu achlysuron pan mai dim ond un aelod o staff oedd yn gofalu am y plant.

Nid oes gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad broses gwbl effeithiol ar waith ar gyfer cynnal arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwylio yn rheolaidd i'r staff. Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd ac mae cofnodion ar gael. Maent yn rhoi cyfle i'r staff drafod materion a rhannu syniadau. Mae'r hyfforddiant gorfodol fel cymorth cyntaf yn gyfredol ac mae rhai aelodau o'r staff wedi cael mynediad at hyfforddiant ychwanegol i helpu'r lleoliad i weithredu'r cwricwlwm newydd i Gymru.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynllunio ar gyfer gwelliant ac yn ceisio adborth gan rieni. Maent yn trafod ffyrdd o wella'r gwasanaeth yn ystod cyfarfodydd staff ac yn cadw cofnodion o'r cyfarfodydd hynny. Fodd bynnag, nid ydynt wedi ysgrifennu adroddiad ansawdd gofal yn dilyn yr adolygiad.

Mae’r bartneriaeth â’r rhieni yn un da. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni ar ddechrau a diwedd y sesiwn am lesiant a phrofiadau eu plentyn.

## Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Diweddaru'r polisi amddiffyn plant

A2. Sicrhau bod asesiadau risg yn fwy manwl

A3. Sicrhau bod dau aelod o staff yn bresennol ar bob adeg

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 16 | Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn gofyn am farn y rhieni a'r plant. Fodd bynnag, nid ydynt yn ysgrifennu adroddiad ansawdd gofal o fewn 28 diwrnod i'r adolygiad. | Newydd |
| 29 | Nid oes gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth broses gwbl effeithiol ar waith ar gyfer cynnal arfarniadau blynyddol a goruchwylio’r staff yn rheolaidd. | Newydd |
| 20 | Nid yw'r person cofrestredig wedi sicrhau bod gan y person â chyfrifoldeb a'r person cofrestredig dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae angen i'r person cofrestredig sicrhau bod gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu'n brydlon bob tair blynedd ar gyfer pawb. | Newydd |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 26/08/2022